WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 30 Mawrth 2012
Ein cyf: HVT/1604/fgb
Tudalen: 1 o 3

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Gadeirydd

## Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Fel y cofiwch mae'n siŵr, roedd fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian yn cynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Fodd bynnag, fel y nodais yn fy mhapur briffio diweddar a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 31 Ionawr 2012, rwyf bellach wedi penderfynu peidio â mynd ati i gynnal adolygiad manwl o AGGCC. Mae'r llythyr hwn yn esbonio fy rhesymau dros y penderfyniad hwnnw ac yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith ar AGGCC a gyflawnwyd gan fy staff yn ystod 2011.

Nodwyd pryderon ynglŷn ag effeithiolrwydd system reoleiddio AGGCC, yn enwedig mewn perthynas â chartrefi gofal i oedolion (gan gynnwys y rhai sy'n darparu gofal nyrsio), gan raglen Week In Week Out BBC Cymru a ddarlledwyd ar 25 Tachwedd 2009. Roedd ymchwiliad y BBC a oedd yn sail i'r rhaglen wedi canolbwyntio ar dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â Chartref Gofal Glyndŵr yn Ystrad, Rhondda Cynon Taf. Ysgrifennodd Jonathan Morgan, fel Cadeirydd y Pwyllgor ar y pryd, at Jeremy Colman, yr Archwilydd Cyffredinol ar y pryd, yn gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal ymchwiliad o berfformiad AGGCC mewn perthynas â'r materion a gododd yn rhaglen y BBC. Aethoch hefyd ati i ysgrifennu at Mr Colman ynglŷn â'r mater hwn ym mis Rhagfyr 2009, yn eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar y pryd.

Yn dilyn y rhaglen Week In Week Out, bu AGGCC yn adolygu a gweddnewid yn llwyr ei gweithgareddau rheoleiddio. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion a'r pryderon penodol a godwyd mewn perthynas â Chartref Gofal Glyndŵr, aeth AGGCC ati i gynnal 'Adolygiad o Reoleiddio' a arweiniodd at ddatblygu 'Rhaglen Foderneiddio' eang yn 2011 a fydd yn effeithio ar holl weithgareddau rheoleiddio AGGCC a strwythur y sefydliad cyfan. Mae'r achos dros newid hefyd yn deillio o'r ffaith bod angen i AGGCC sicrhau ei bod yn gallu cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio'n effeithiol ac ymateb i'r pwysau ariannol sy'n wynebu pob gwasanaeth cyhoeddus. Mae AGGCC hefyd yn

cymryd camau i gydymffurfio â rheoliadau'r UE a bodloni disgwyliadau defnyddwyr trwy wella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar-lein ac, yn fwy cyffredinol, mae wedi angen ymateb i'r materion a nodwyd yn y papur a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2011, *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*, a'r *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)* newydd.

O ystyried lefel yr adolygiad a'r newid sydd bellach ar waith yn AGGCC, penderfynais na fyddai'n ddefnyddiol nac yn gynhyrchiol ceisio cynnal adolygiad cyfochrog o AGGCC. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, ystyriais gwmpas ymchwiliad presennol y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofal preswyl i bobl hŷn, sy'n rhoi sylw i effeithiolrwydd y system reoleiddio bresennol. Deallaf fod AGGCC wedi cyflwyno papur i'r Pwyllgor hwnnw ac y bydd yn cyflwyno tystiolaeth bellach ym mis Mai 2011.

Gyda'r llythyr hwn, rwy'n atodi ein hasesiad o'r camau mae AGGCC wedi'u cymryd dros y ddwy flynedd diwethaf i fynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n peri pryder a nodwyd tua diwedd 2009, a'r gwaith a gyflawnwyd fel rhan o brosiect yr Adolygiad o Reoleiddio a'r Rhaglen Foderneiddio barhaus. Mae ein canfyddiadau a'n casgliadau'n seiliedig ar adolygiad o amrywiaeth o ddogfennau a ddarparwyd gan AGGCC sy'n sôn am y gwaith o ddarparu ei swyddogaethau rheoleiddio, gan gynnwys amgylchiadau penodol rheoleiddio Cartref Gofal Glyndŵr, a'r camau mae AGGCC wedi'u cymryd i wella ei phrosesau. Mae fy staff wedi trafod materion perthnasol mewn cyfarfodydd gydag uwch reolwyr, cyfarwyddwyr rhanbarthol a rheolwyr rheoleiddio rhanbarthol AGGCC. Maent hefyd wedi cyfarfod â staff eraill AGGCC sy'n gyfrifol am y Rhaglen Foderneiddio, llywodraethu a thechnoleg gwybodaeth, yn ogystal â chyfarfod â staff tîm gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru.

Mae hyd a lled rhaglen newid AGGCC wedi bod yn sylweddol ac mae'r trywydd yn un cadarnhaol. Mae cyflymder cyffredinol y newid wedi'i gyfyngu gan gapasiti, gan gynnwys yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng datblygu newid sefydliadol a gofynion y busnes o ddydd i ddydd. Er hynny, mae AGGCC wedi gwella ei pherfformiad o ran darparu ei chyfundrefn arolygu arfaethedig. Mae'n disgwyl cwblhau 100 y cant o arolygiadau arfaethedig yn 2011-12, ac mae'n hyderus bod y camau mae wedi'u cymryd i wella ei phrosesau rheoleiddio ers diwedd 2009 wedi arwain at gyflawni gwaith i safon broffesiynol uwch. Mae AGGCC wedi gwneud cynnydd da gyda'i Rhaglen Foderneiddio yn ystod 2011-12 ac mae bellach yn bwriadu cyflwyno prosesau rheoleiddio newydd, gyda chymorth strwythur sefydliadol newydd, ddechrau 2012-13.

Mae gen i ddiddordeb brwd yn y cynnydd mae AGGCC yn ei wneud o ran gweithredu ei rhaglen newid a'r effaith mae hynny'n ei chael ar effeithiolrwydd ei swyddogaethau rheoleiddio. Mae Swyddfa Archwilio Cymru eisoes yn cael ei chynrychioli ar fwrdd rhanddeiliaid cenedlaethol AGGCC ar gyfer y Rhaglen Foderneiddio a byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor os bydd unrhyw faterion o bwys yn codi. Yn y cyfamser, rwy'n siŵr y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi fel adroddiad ar y cynnydd mae AGGCC yn ei wneud mewn perthynas â'r pryderon a nodwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor.

Rwyf hefyd yn anfon y llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i lywio ei ymchwiliad presennol, ac yng ngoleuni'r pryderon a nodwyd pan oeddech yn Gadeirydd y Pwyllgor a oedd yn ei ragflaenu.

Yn gywir,

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg*

*cc* *Mr Mark Drakeford AC, Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

# Atodiad: Crynodeb o gamau allweddol a gymerwyd gan AGGCC a ddylai fynd i'r afael â gwendidau yn y ffordd y mae'n rheoleiddio cartrefi gofal

## Mae gweithgareddau rheoleiddio AGGCC yn ceisio sicrhau y darperir gofal o safon uchel mewn cartrefi gofal

**1.** Crëwyd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ebrill 2007, ar ôl uno Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Mae AGGCC yn gyfrifol am arolygu ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a rheoleiddio ac arolygu safleoedd ac asiantaethau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Mae AGGCC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Er ei bod yn annibynnol yn broffesiynol, mae AGGCC yn rhan o Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru.

**2.** Mae swyddogaethau rheoleiddio AGGCC mewn perthynas â chartrefi gofal i oedolion, a safleoedd gofal eraill, yn cynnwys:

- *Cofrestru*: penderfynu pwy all ddarparu'r gwasanaethau hyn;
- *Arolygu*: arolygu gwasanaethau cofrestredig yn erbyn y rheoliadau yn Neddf Safonau Gofal 2000, a chyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r arolygiadau hyn;
- *Cwynion*: ymchwilio i gwynion a cheisio eu datrys - os na all y darparwyr eu datrys;
- Cydymffurfiaeth: sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol; a
- *Gorfodi*: cymryd camau gorfodi i sicrhau bod gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a rheoliadau cysylltiedig yn cael eu bodloni.

**3.** Ar 31 Rhagfyr 2011, roedd AGGCC yn gyfrifol am reoleiddio 6,240 o safleoedd gwasanaeth, gyda thua un o bob naw ohonynt yn gartrefi gofal i oedolion 65 oed a hŷn[1].

**4.** Nod gweithgareddau rheoleiddio AGGCC yw sicrhau bod darparwyr cartrefi gofal yn darparu gofal o safon uchel ac yn cydymffurfio â gofynion statudol. Fodd bynnag, mae *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*[2] yn pwysleisio: *"bod y prif gyfrifoldeb am sicrhau ansawdd, llais clir a rheolaeth yn nwylo defnyddwyr y gwasanaethau, a hefyd am ddiogelu ac amddiffyn ar ysgwyddau'r cyrff eu hunain, y gweithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n comisiynu'r gwasanaethau – nid ar ysgwyddau'r rheoleiddwyr a'r arolygwyr"*.

---

[1] *Lleoliadau Gwasanaeth a Lloedd a Reoleiddir gan AGGCC, 31 Rhagfyr 2011*, AGGCC, Chwefror 2012.
[2] *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2011.

**5.** Mae yna ofyniad rheoleiddio sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr cofrestredig cartrefi gofal gyflawni eu gwaith monitro ansawdd eu hunain. Dylai sefydliadau comisiynu (awdurdodau lleol a byrddau iechyd) hefyd fod yn cyflawni eu gwaith eu hunain i fonitro ansawdd eu darpariaeth gwasanaethau. Yn ddiweddar, gofynnodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant Llywodraeth Cymru i Fyrddau Iechyd am wybodaeth am eu trefniadau ar gyfer monitro ansawdd gofal mewn cartrefi gofal, ac mae wedi gofyn iddynt gynnwys eu harchwilwyr mewnol wrth adolygu'r trefniadau hynny. Mae AGGCC hefyd yn bwriadu cynnal adolygiad cenedlaethol o drefniadau comisiynu llywodraeth leol.

## Nododd adolygiad AGGCC o'r ffordd yr oedd wedi cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â Chartref Gofal Glyndŵr, a gyhoeddwyd yn 2009, rai gwendidau clir a oedd yn annhebygol o fod yn unigryw i'r safle gofal hwn

**6.** Ar 25 Tachwedd 2009, canolbwyntiodd rhaglen Week In Week Out y BBC ar a oedd AGGCC yn gwneud digon i ddiogelu hawliau pobl hŷn sy'n agored i niwed. Roedd ymchwiliad y BBC a oedd yn sail i'r rhaglen wedi canolbwyntio ar dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â Chartref Gofal Glyndŵr yn Ystrad, Rhondda Cynon Taf. Roedd y pryderon a gododd o ganlyniad i raglen Week In Week Out yn ymwneud â'r canlynol:

- i ba raddau mae trefniadau rheoleiddio cartrefi gofal AGGCC yn darparu sicrwydd digonol eu bod yn cael eu rheoli gan staff sydd wedi eu gwirio ac sydd wedi ac yn derbyn hyfforddiant a rheolaeth briodol, ac sy'n gallu cael gafael ar yr adnoddau priodol;
- a oedd gweithdrefnau monitro ac arolygu AGGCC yn ddigon cadarn i sicrhau bod cartrefi gofal yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol;
- a oedd y cosbau sydd ar gael i AGGCC yn cael eu defnyddio'n effeithiol; ac
- a oedd prosesau rheoli gwybodaeth AGGCC yn ddigon cadarn i asesu perfformiad yn llawn, gan gynnwys hyd a lled unrhyw berfformiad gwael, diffyg cydymffurfiaeth a throseddu dro ar ôl tro.

**7.** Mewn ymateb i'r materion a godwyd yn rhaglen Week In Week Out, aeth AGGCC ati'n syth i adolygu sut roedd wedi rheoleiddio Cartref Gofal Glyndŵr. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod materion a oedd yn destun pryder yn y cartref wedi'u nodi dros sawl blwyddyn, yn enwedig mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau. Ar sawl achlysur, gan gynnwys ar ôl dau atgyfeiriad Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA)[3] ym mis Ebrill a mis Awst 2009 a'r arolygiad blynyddol ym mis Mai 2009, nododd AGGCC ei bod wedi colli sawl cyfle i gymryd camau rheoleiddio mwy cadarn. Nododd yr adolygiad lawer o ddiffygion yn AGGCC, gan gynnwys:

---

[3] Ystyr atgyfeiriad POVA yw pan fo honiad, pryder neu ddatgeliad – yn ymwneud â chamdriniaeth bosibl – yn cael ei adrodd yn uniongyrchol i sefydliad statudol (gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol, yr heddlu neu gorff y GIG).

- Pwysau gwaith oherwydd prinder staff. Roedd tîm rheoleiddio rhanbarthol y Canolbarth a'r De wedi bod yn mynd i'r afael â nifer o bryderon gorfodi mewn safleoedd gofal eraill, ac mae'n ymddangos bod y rheiny wedi cael blaenoriaeth.

- Amharodrwydd staff i gymryd camau gorfodi gan eu bod yn poeni efallai na fyddai gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru'n cefnogi camau o'r fath, ac oherwydd goblygiadau cymryd camau gorfodi i adnoddau.

- Tensiwn rhwng rôl reoleiddio unigryw AGGCC a rôl asiantaethau eraill; er enghraifft, yn yr achos hwn, rôl yr heddlu mewn perthynas ag ymchwiliadau POVA.

- Cwynion ac atgyfeiriadau POVA yn cael eu hatgyfeirio'n amhriodol i'w datrys yn lleol. Mae'n ofynnol i gartrefi gofal unigol ddangos bod ganddynt weithdrefn gwyno glir, effeithiol a theg ar waith sy'n hyrwyddo datrys y materion hynny yn lleol lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, yn ôl adolygiad AGGCC, o ystyried eu natur ac yng ngoleuni pryderon ynglŷn â pherfformiad y rheolwr cofrestredig, roedd rhai cwynion ac atgyfeiriadau POVA mewn perthynas â Chartref Gofal Glyndŵr wedi'u hatgyfeirio'n amhriodol i'w datrys yn lleol.

- Pryderon ynglŷn â'r ffordd y cafodd gofynion rheoleiddio[4] eu nodi a'u trafod ar ôl yr ymweliad arolygu ym mis Mai 2009 (cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Awst 2009). Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â: diffyg canolbwyntio ar ofynion a godwyd mewn arolygiadau blaenorol; cyfleoedd i wneud yr adroddiad arolygu'n gliriach a chanolbwyntio mwy ar nodi tramgwyddau rheoleiddio penodol: a chyflwyno hysbysiadau cydymffurfio adeg cyflwyno'r adroddiad yn hytrach nag adeg yr arolygiad.

- Gwendidau o ran ategu systemau sicrhau ansawdd a gwybodaeth reoli. Nododd staff nad oedd hi'n hawdd cael gafael ar wybodaeth am safleoedd gofal unigol. Hefyd, roedd yr adolygiad o'r farn bod yna ddiffyg dadansoddiad cynhwysfawr o achosion neu o gronoleg digwyddiadau mewn perthynas â Chartref Gofal Glyndŵr, ac absenoldeb cyffredinol proses rheoli risg strwythurol a system rybuddio a systemau i fonitro gweithgarwch. Roedd trosiant a/neu absenoldeb staff yn y tîm sy'n gyfrifol am reoleiddio Cartref Gofal Glyndŵr wedi gwaethygu'r diffygion hyn yn y system rheoli gwybodaeth.

**8.** Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod angen dysgu gwersi ar bob lefel yn AGGCC a'i bod hi'n annhebygol bod y materion a gododd yn gwbl unigryw i'r

[4] Mae adroddiadau arolygu AGGCC yn amlinellu unrhyw ofynion ffurfiol ar gyfer y safle gofal o ran sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau penodol. Mae'r adroddiadau hefyd yn nodi'r amserlenni ar gyfer hysbysu AGGCC am gamau i sicrhau cydymffurfiaeth. Yn ogystal â'r gofynion ffurfiol hyn, gall adroddiadau arolygu nodi camau eraill sydd angen eu cymryd i wella gofal yn unol ag arferion da.

un safle gofal hwn, neu’r gwaith o reoli gweithgareddau yn rhanbarth y Canolbarth a’r De.

**Yn ôl yr arolygiad diweddaraf o Gartref Gofal Glyndŵr, yr adroddwyd arno ym mis Mehefin 2011, roedd yr holl ofynion a godwyd mewn arolygiadau blaenorol wedi’u bodloni’n briodol, ond nodwyd fod angen gwneud gwelliannau pellach mewn rhai meysydd, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio gofal a staffio**

**9.** Ar ôl rhaglen Week In Week Out ar 25 Tachwedd 2009, cynhaliodd AGGCC ymweliad dirybudd â Chartref Gofal Glyndŵr ar 27 Tachwedd 2009, a chynhaliwyd ymweliadau dirybudd pellach ym mis Rhagfyr 2009, mis Mawrth 2010 a mis Mai 2010. Yn ystod arolygiad ffurfiol nesaf AGGCC, defnyddiwyd canfyddiadau tri ymweliad dirybudd pellach a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf a mis Awst 2010. Yn ogystal â’r prosesau arolygu arferol, roedd ymweliadau mis Gorffennaf a mis Awst 2010 yn cynnwys ffocws arbennig ar drefniadau rheoli heintiau. Aeth y gwaith hwn ymlaen i lywio adolygiad thematig AGGCC o safonau rheoli heintiau ym mhob cartref gofal i oedolion.

**10.** Cyhoeddodd AGGCC ei adroddiad arolygu ym mis Hydref 2010. Pwysleisiodd yr adroddiad welliannau ers yr arolygiad blaenorol (yr adroddwyd arno ym mis Awst 2009) mewn perthynas ag: arferion recriwtio a dogfennau cysylltiedig; cydymffurfiaeth â gofynion i gyflwyno cadarnhad ysgrifenedig i ddefnyddwyr gwasanaethau, yn dilyn asesiad cychwynnol, y gall y cartref ddiwallu eu hanghenion; cynhyrchu adroddiad sicrhau ansawdd blynyddol (er bod yna ofyniad i’r darparwr cofrestredig gynnal ymweliadau monitro chwarterol); a darparu gwell gweithgareddau yn ystod y dydd i breswylwyr. Fodd bynnag, daeth yr adroddiad i’r casgliad y gellid gwella’r gwasanaethau a safon y gofal yn gyffredinol trwy ddarparu mwy o staff. Pwysleisiodd hefyd fod angen gwella’r gwaith cadw cofnodion a’r gwaith adfer mewn perthynas â’r system galw nyrsys a gosodiadau trydanol. Ystyriwyd fod y trefniadau rheoli mewnol yn anfoddhaol hefyd.

**11.** Roedd yr adroddiad arolygu’n cynnwys 12 o ofynion penodol, gyda phump ohonynt yn ymwneud â chanfyddiadau AGGCC ar reoli heintiau. O’r saith gofyniad arall, roedd pedwar yn deillio o arolygiadau blaenorol. Roedd AGGCC wedi nodi’n wreiddiol y dylai gofyniad mewn perthynas â sicrhau cysondeb rhwng cynlluniau gofal defnyddwyr gwasanaethau a ddatblygir gan staff yn y cartref a dogfennau cysylltiedig a gynhyrchir gan wasanaethau comisiynu gael ei fodloni erbyn canol mis Ebrill 2007.

**12.** Roedd yr adroddiad arolygu diweddaraf ar gyfer Cartref Gofal Glyndŵr, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011, yn seiliedig ar ymweliad arolygu dirybudd ym mis Ebrill 2011. Pwysleisiodd yr adroddiad bryderon parhaus ynglŷn â threfniadau recriwtio a chadw staff, yn enwedig mewn perthynas â nyrsys cofrestredig. Mae’r pryderon hyn wedi’u nodi gan AGGCC a chyrff comisiynu lleol fel rhan o weithdrefnau ‘pryderon sy’n dwysáu’ a gyflwynwyd ers arolygiad 2010. O ganlyniad, roedd adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol a’r Bwrdd Iechyd Lleol wedi rhoi embargo ffurfiol ar dderbyniadau. Roedd AGGCC hefyd wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â’r cartref ers yr adroddiad arolygu blaenorol ym mis Hydref 2010. Nododd adroddiad mis Mehefin 2011 fod gwelliannau wedi’u gwneud a bod yr

embargo wedi'i godi, ond pwysleisiodd fod angen cynnal y gwelliannau hyn er mwyn darparu sefydlogrwydd a pharhad gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau.

**13.** Nododd adroddiad mis Mehefin 2011 lawer o feysydd i'w gwella, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio gofal a staffio. Fodd bynnag, nid oedd y materion a godwyd yn gofyn am osod unrhyw ofynion rheoleiddio penodol a newydd ar y darparwr cofrestredig mewn perthynas â hysbysu cydymffurfiaeth. Mae'r adroddiad yn nodi bod y gofynion yn deillio o arolygiadau blaenorol wedi'u bodloni'n briodol.

**14.** Ers arolygiad diweddaraf AGGCC, yr adroddwyd arno ym mis Mehefin 2011, mae'r darparwr cofrestredig wedi newid enw'r cartref gofal i Gartref Gofal Mill View.

**Mae AGGCC wedi mynd i'r afael â rhai o'r prif bryderon a nododd yn 2009 ynglŷn â'r ffordd yr oedd wedi cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â Chartref Gofal Glyndŵr, ond mae ymateb llawnach i'r materion hyn wedi'i gynnwys mewn prosiect Adolygiad o Reoleiddio yn 2010 ac, ers dechrau 2011, mewn Rhaglen Foderneiddio ehangach**

**15.** Roedd y meysydd ar gyfer gweithredu a nodwyd gan AGGCC tua diwedd 2009 yn ymwneud â rheoli perfformiad a systemau cysylltiedig; niferoedd staff a hyfforddi a datblygu staff; gwella systemau gwybodaeth; gweithio gydag eraill; a goblygiadau polisi ehangach. Ers hynny, mae sawl un o'r camau a nodwyd wedi'u cynnwys yng nghwmpas prosiect Adolygiad o Reoleiddio AGGCC yn 2010 ac, ers dechrau 2011, yn y Rhaglen Foderneiddio ehangach. Fodd bynnag, mae camau mwy uniongyrchol a gymerwyd y tu allan i gwmpas y gwaith hwnnw wedi cynnwys y canlynol:

- Ar lefel safle cenedlaethol, rhanbarthol ac unigol, mae AGGCC wedi cryfhau ei threfniadau o ran monitro ac adrodd ar gynnydd a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio. Fodd bynnag, mae yna gyfyngiadau yn ei systemau gwybodaeth o hyd ac mae mesurau perfformiad allweddol AGGCC yn canolbwyntio ar allbynnau yn hytrach na chanlyniadau. Mae datblygu mesurau perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'n rhan o Raglen Foderneiddio AGGCC.

- Wrth gryfhau ei threfniadau rheoli, mae AGGCC wedi cyflwyno prosesau sicrhau ansawdd mwy cadarn i oruchwylio'r gwaith o adrodd ar ganfyddiadau arolygiadau a'r gofynion a osodir ar ddarparwyr o ganlyniad.

- Mae AGGCC wedi darparu canllawiau a hyfforddiant ychwanegol i staff, yn ymwneud yn benodol â thrafod cwynion a materion amddiffyn oedolion. Mae hyn yn dilyn canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009 ar rôl AGGCC mewn perthynas â chyrff statudol eraill mewn cysylltiad â pholisïau a gweithdrefnau amddiffyn oedolion. Hefyd, yn 2010, datblygwyd Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru Gyfan ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, sy'n berthnasol i asiantaethau sy'n rhan o'r gwaith hwn, yn dilyn gwaith a gomisiynwyd

gan y pedwar fforwm amddiffyn oedolion yng Nghymru[5]. Mae'r gwaith o ddatblygu'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn rhan o gorff ehangach o waith ar drefniadau amddiffyn oedolion yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys arolygiad cenedlaethol AGGCC o drefniadau amddiffyn oedolion[6], ac adroddiad gan Fwrdd Prosiect Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Llywodraeth Cymru[7]. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, bydd *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)* Llywodraeth Cymru'n cynnwys fframwaith statudol ar gyfer amddiffyn oedolion a phlant.

- Penododd AGGCC staff ychwanegol i gryfhau trefniadau rheoli yn rhanbarth y Canolbarth a'r De ac i fynd i'r afael â phrinder staff. Fodd bynnag, roedd yna bryder ynglŷn â chapasiti a llwythi gwaith ym mhob rhanbarth o hyd, ac roedd hyn yn cael ei ddwysáu gan effaith strategaeth leoli a mentrau diswyddo gwirfoddol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd gwaith a gynhaliwyd gan AGGCC yn 2010 yn amlygu diffyg cysondeb yn y ffordd roedd arolygwyr yn treulio'u hamser. Roedd AGGCC hefyd wedi nodi pryderon mwy cyffredinol ynglŷn â'r amser roedd staff yn ei dreulio'n rheoli cwynion, er gwaethaf y ffaith y bydd yna adegau pan na fydd hi'n briodol datrys y mater yn lleol, ac wrth reoli cofrestriadau. Mae cynlluniau AGGCC ar gyfer ad-drefnu'r sefydliad a chyflwyno prosesau mwy darbodus fel rhan o'r Rhaglen Foderneiddio yn darparu sail i reoli llwythi gwaith mewn ffordd fwy cynaliadwy.

- Bu AGGCC yn adolygu'r holl ofynion a osodwyd ar ddarparwyr ar ôl ymweliadau arolygu. Amlygodd y gwaith hwn faterion yn ymwneud â gofynion yr oedd angen eu bodloni. Fodd bynnag, yn ôl AGGCC, roedd darparwyr wedi bodloni'r gofynion hyn mewn rhai achosion, ond nid oedd ei systemau gwybodaeth wedi'u diweddaru i adlewyrchu hynny.

- Mae AGGCC wedi datblygu canllawiau diwygiedig i staff ar ddefnyddio cronolegau digwyddiadau, a phwysleisiodd y rheolwyr rhanbarthol fod staff bellach yn fwy ymwybodol o'u pwysigrwydd, yn enwedig o ran cefnogi unrhyw gamau posibl gan wasanaethau cyfreithiol. Er eu bod yn cydnabod cyfyngiadau'r system wybodaeth a ddefnyddir i gadw data rheoleiddio, yn ôl rhai o reolwyr rhanbarthol AGGCC, o'i defnyddio'n gywir, gall y system ddarparu trosolwg o weithgarwch rheoleiddio dros amser.

---

[5] Mae'r pedwar prif fforwm aml-asiantaeth yn gyfrifol am ddatblygu a chytuno ar bolisïau a gweithdrefnau i amddiffyn oedolion agored i niwed, a'u rhoi ar waith. Mae'r pedwar fforwm yn cyd-fynd yn ddaearyddol â'r pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru (De Cymru, Gwent, Dyfed Powys a Gogledd Cymru).
[6] *Arolygiad Cenedlaethol o Amddiffyn Oedolion - Trosolwg Cymru Gyfan*, AGGCC, Mawrth 2010.
[7] *Adroddiad Bwrdd Prosiect Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed*, Bwrdd Prosiect Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, Chwefror 2011.

- Yn ystod 2010-11, datblygodd AGGCC brosesau newydd ar gyfer adolygu 'gwasanaethau sy'n peri pryder', sy'n darparu dull mwy cadarn o adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am safle penodol a chamau pellach mewn perthynas â chydymffurfio a gweithgarwch gorfodi posibl. Bydd AGGCC yn cynnal yr adolygiadau hyn os bydd y darparwr gofal, ar ôl arolygiad ac unrhyw gyfarfodydd dilynol gydag AGGCC, yn dal i fethu â dangos ei fod yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio.

**Yn dilyn pryderon ynglŷn â'r rhagolygon ar gyfer darpariaeth lwyddiannus, aeth AGGCC ati i gryfhau trefniadau rheoli ei Rhaglen Foderneiddio a newid blaenoriaethau'r Rhaglen**

*Prif ddiben y prosiect Adolygiad o Reoleiddio yn 2010 oedd datblygu'r achos dros brosesau busnes newydd a buddsoddi mewn systemau gwybodaeth newydd, yn hytrach na rhoi newid ar waith*

**16.** Roedd y pryderon a nodwyd yn 2009 wedi amlygu nad oedd prosesau busnes a systemau gwybodaeth presennol AGGCC yn gwbl addas i'r diben. Prif ddiben prosiect Adolygiad o Reoleiddio AGGCC yn 2010 oedd cefnogi penderfyniadau ar hyfywedd rhoi prosesau busnes newydd a systemau gwybodaeth cysylltiedig ar waith. Nod y prosiect cwmpasu y bwriadwyd ei gynnal yn 2010 oedd cefnogi'r achos dros newid, yn hytrach na sbarduno newid. Cafodd y prosiect ei reoli gan staff AGGCC a'i gefnogi gan ymgynghorwyr allanol (am gost o £311,000, a TAW).

**17.** Parodd y prosiect Adolygiad o Reoleiddio yn hwy na'r disgwyl. Ar ddechrau'r prosiect ym mis Chwefror 2010, rhagwelwyd y byddai'r achos busnes amlinellol yn cael ei baratoi erbyn diwedd mis Gorffennaf 2010. Yna, cafodd yr amserlen hon ei hymestyn fel y gellid casglu tystiolaeth o'r ateb TGCh arfaethedig ar gyfer AGGCC a phennu a oedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi caffael ateb TGCh addas i'w ddefnyddio mewn rhan arall o'r sefydliad.

**18.** Pan ystyriodd Bwrdd Prosiect yr Adolygiad o Reoleiddio yr achos busnes amlinellol ym mis Rhagfyr 2010, cydnabu fod angen gwneud mwy o waith i egluro'r manteision disgwyliedig. Amcangyfrifwyd y byddai darparu ateb TGCh AGGCC, gan gynnwys gwerth amser staff, yn costio £8.3 miliwn (heb gynnwys TAW). Roedd y ffigur hwn yn cynnwys rhai elfennau o'r gwaith y disgwylir iddo gael ei gynnwys fel rhan o brosiect ar wahân gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad gwasanaethau ar-lein diogel (y prosiect Galluogi Gwasanaethau Ar-lein). Yn achos AGGCC, byddai gwasanaethau ar-lein o'r fath yn cynnwys cofrestru darparwyr gofal.

**19.** Argymhellodd yr Adolygiad o Reoleiddio y dylid sefydlu rhaglen newid AGGCC yn llawn – lansiwyd y Rhaglen Foderneiddio ym mis Ionawr 2011 – gan recriwtio i swyddi rheoli rhaglenni a phrosiectau newydd i gefnogi'r rhaglen[8]. Hefyd, ar ôl ei sefydlu, argymhellodd yr Adolygiad o Reoleiddio y dylai trefniadau rheoli'r Rhaglen Foderneiddio gael eu hadolygu gan Dîm

[8] Erbyn hyn, mae Cyfarwyddwr Prosiectau a Rheolwr Prosiectau AGGCC ar gyfer yr Adolygiad o Reoleiddio wedi gadael y sefydliad.

Adolygiad Gateway Llywodraeth Cymru. Mae argymhellion eraill yn ymwneud â dulliau cyfathrebu staff a gwaith pellach ar broffilio budd-daliadau a mapio prosesau wedi'u datblygu yng nghwmpas y Rhaglen Foderneiddio, sydd wedi'i threfnu o gwmpas tair ffrwd waith graidd:

- datblygu prosesau (yn cwmpasu holl swyddogaethau rheoleiddio AGGCC);
- datblygu sefydliadol (strwythurau rheoli, cynllunio'r gweithlu a dysgu a datblygu); a
- datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

**20.** Datblygodd AGGCC yr Achos Amlinellol Strategol dros y Rhaglen Foderneiddio rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2011. Nododd y ddogfen honno gynlluniau i roi prosesau rheoleiddio newydd ar waith yn llawn erbyn dechrau 2012-13, gyda gwaith datblygu sefydliadol yn parhau hyd at ganol 2012-13 a gwaith datblygu TGCh i'w gwblhau erbyn diwedd 2012-13.

*Nododd Adolygiad Gateway ym mis Mai 2011 bryderon sylweddol ynglŷn â rhagolygon AGGCC ar gyfer darparu'r Rhaglen Foderneiddio o fewn yr amserlen arfaethedig, ac aeth ati i gwestiynu'r ffocws ar y pryd ar ddatblygu TGCh*

**21.** Ym mis Mai 2011, cwblhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru Adolygiad Gateway[9] o gynlluniau AGGCC ar gyfer y Rhaglen Foderneiddio. Nododd Adolygiad Gateway bryderon sylweddol ynglŷn â rhagolygon AGGCC ar gyfer darparu'r Rhaglen o fewn yr amserlenni arfaethedig. Rhoddodd tîm yr adolygiad farc 'coch' i'r Rhaglen mewn perthynas â hyder yn y gallu i gyflawni. Roedd y marc hwn yn adlewyrchu'r asesiad canlynol: *"Mae'n ymddangos na ellir cyflawni'r Rhaglen yn llwyddiannus. Mae yna bryderon mawr ynglŷn â'r diffiniad o'r rhaglen, yr amserlen, y gyllideb ac ansawdd y gwaith o ddarparu budd-daliadau ac, ar hyn o bryd, mae'n ymddangos na ellir eu rheoli na'u datrys. Efallai y bydd angen creu llinell sylfaen a/neu ailasesu hyfywedd cyffredinol y Rhaglen".* Cydnabu Adolygiad Gateway fod gwaith datblygu sylweddol eisoes ar waith, ond ei fod yn cael ei gyflawni'n bennaf y tu allan i unrhyw raglen rheolaeth ffurfiol, er enghraifft, mewn perthynas â threfniadau i gytuno ar flaenoriaethau, adrodd ar gynnydd a rheoli rhyngddibyniaethau.

**22.** Yn ôl Adolygiad Gateway, fel y gwelwyd gyda ffocws yr Adolygiad o Reoleiddio, roedd ffocws cynnar y Rhaglen Foderneiddio ar ddiffinio'r achos busnes llawn i ariannu'r gwaith o ddatblygu TGCh. Er hynny, prin oedd y bobl o fewn AGGCC y siaradodd tîm Adolygiad Gateway â nhw a oedd wedi nodi mai datblygu TGCh oedd y brif flaenoriaeth. Nododd Adolygiad Gateway bryderon bod y deunydd a ddefnyddiwyd i ddiffinio'r gofynion TGCh eisoes yn

---

[9] Datblygwyd proses Adolygiad Gateway gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth (sydd bellach yn gweithredu trwy Wasanaeth Caffael y Llywodraeth, asiantaeth weithredol o Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU). Diben y broses yw archwilio rhaglenni a phrosiectau ar bwyntiau allweddol yn eu cylch bywyd a darparu sicrwydd o ran cynnydd tuag at y cam datblygu nesaf. Cynhaliwyd Adolygiad Gateway o raglen foderneiddio AGGCC gan swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu'r tu allan i AGGCC.

hen ac nad oedd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu datblygiadau'r broses. Cwestiynodd a fyddai tîm Hwyluso Llywodraeth[10] Llywodraeth Cymru'n barod i dderbyn cais am adnoddau gan AGGCC i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chaffael system newydd. Hefyd, mynegodd Adolygiad Gateway bryder ynglŷn â'r rhyngddibyniaeth rhwng dyheadau AGGCC a'r amserlenni ar gyfer prosiect Galluogi Gwasanaethau Ar-lein Llywodraeth Cymru.

*Cryfhaodd AGGCC drefniadau rheoli ei Rhaglen Foderneiddio a newidiodd flaenoriaethau'r Rhaglen, gan arwain at Adolygiad Gateway dilynol cadarnhaol ym mis Medi 2011*

**23.** Mewn ymateb i Adolygiad Gateway, bu AGGCC yn ailystyried blaenoriaethau'r Rhaglen Foderneiddio a phenderfynodd ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu newidiadau arfaethedig i brosesau a strwythurau, a gwaith datblygu sefydliadol cysylltiedig, ar sail y ffaith na ellid deall na diffinio'n llawn y gofyniad TGCh ar ei ben ei hun. Cafodd y gwaith o benodi rheolwr prosiect ar gyfer y ffrwd waith datblygu TGCh ei ohirio hyd nes y gwanwyn 2012. Yn y cyfamser, mae AGGCC wedi bod yn gweithio o fewn cyfyngiadau ei system TGCh gyfredol i ddiwallu anghenion busnes yn y tymor byr. Pa bynnag system a ddefnyddir, mae rheolwyr AGGCC yn cydnabod mai'r her fydd sicrhau bod staff maes a rheolwyr yn gallu ei deall a'i defnyddio'n well na'r system bresennol.

**24.** Cynhaliodd tîm Adolygiad Gateway adolygiad dilynol ym mis Medi 2011 i ystyried y camau roedd AGGCC wedi'u cymryd mewn ymateb i'r argymhellion yn adolygiad mis Mai 2011. Yng ngoleuni newid pwyslais y Rhaglen a chymryd camau i ffurfioli trefniadau rheoli'r Rhaglen a threfniadau Bwrdd y Rhaglen, uwchraddiodd yr adolygwyr eu hasesiad o hyder yn y gallu i gyflawni i farc 'gwyrdd'.

## Mae'r trywydd cyffredinol wedi bod yn gadarnhaol ac mae AGGCC bellach yn bwriadu cyflwyno prosesau rheoleiddio newydd, gyda chymorth strwythur sefydliadol newydd, ddechrau 2012-13

**25.** Yn Adolygiad Gateway a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011, cafwyd sylwadau ar farn rhai aelodau staff maes bod y Rhaglen Foderneiddio wedi dod i stop. Hefyd, nododd rhai o'r rheolwyr rhanbarthol y siaradwyd â nhw fod yr Adolygiad o Reoleiddio, o bosibl, wedi addo gormod yn rhy gyflym a bod hyn wedi effeithio ar forâl y staff. Fodd bynnag, yn ystod 2011, bu staff AGGCC a chynrychiolwyr o wasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru'n cymryd rhan mewn digwyddiadau gyda'r nod o gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer prosesau rheoleiddio newydd a gwell. Wrth ddod â staff ynghyd i helpu i ddatblygu prosesau newydd, gwelwyd yr amrywiadau mewn arferion a dealltwriaeth leol. Mae'r gwaith o hyfforddi staff ar y prosesau rheoleiddio newydd sy'n codi o'r gwaith hwn eisoes ar waith.

---

[10] Sefydlwyd portffolio 'Hwyluso Llywodraeth' Llywodraeth Cymru yn 2007-08 (fel y Portffolio Datblygu Busnes). Ei ddiben yw datblygu portffolio o raglenni a phrosiectau newid sylweddol, gan gynnwys newid busnes TGCh.

**26.** Fel y nododd Adolygiad Gateway a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011, mae'r achos dros newid yn gadarn ac mae'n ymddangos bod y trywydd wedi'i dderbyn yn gyffredinol gan y sefydliad a rhanddeiliaid allanol. Mae rhai o'r cynigion allweddol mewn perthynas ag ailgynllunio prosesau a strwythur sefydliadol yn cynnwys:

- Ar 1 Ebrill 2012, caiff AGGCC ei had-drefnu'n ffurfiol o bedwar tîm rheoli rhanbarthol i dri, er bod dull tri rhanbarth wedi bod ar waith yn ymarferol ers mis Hydref 2011. Bydd nifer y swyddi Prif Arolygydd Cynorthwyol hefyd yn lleihau o bedwar i dri (gan gwmpasu gweithrediadau, strategaeth a swyddogaethau galluogi). Caiff y strwythur newydd ei 'ddad-haenu', sy'n golygu na fydd mwy na thair haen reoli rhwng y Prif Arolygydd a'r rhai a gyflogir ar y lefel 'band tîm'. Mae'r dad-haenu hwn yn cyd-fynd â newidiadau ehangach ledled Llywodraeth Cymru. Mae disgrifiadau a graddfeydd swydd wedi'u hadolygu, ac mae ymgynghoriad pump wythnos ffurfiol wedi dechrau. Mae AGGCC yn disgwyl cwblhau'r gwaith o baru staff â swyddi erbyn mis Mehefin 2012, gyda'r nod o roi'r broses ar waith yn llawn erbyn mis Hydref 2012.

- Fel rhan o'r ad-drefnu, bydd gan bob rhanbarth dîm cofrestru a gorfodi penodedig. Nod y newid hwn yw gwella effeithlonrwydd a chysondeb y prosesau hyn a sicrhau bod adnodd pwrpasol ar gael i gyflawni'r swyddogaethau hyn, ar wahân i'r aelodau staff hynny sy'n gyfrifol am arolygiadau. Y bwriad yw y bydd timau cofrestru a gorfodi AGGCC yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gofal Cymru i gydgysylltu gweithgareddau gorfodi er mwyn sicrhau bod rheolwyr cofrestredig neu drwyddedig yn atebol am dangyflawni. Mae AGGCC hefyd wedi bod yn trafod cyfleoedd i symleiddio trefniadau cofrestru neu drwyddedu gyda'r Cyngor Gofal[11]. Mae prosesau i asesu a chwblhau ffurflenni cais yn cael eu symleiddio, er nad yw gwasanaethau ar-lein llawn yn uchelgais yn y tymor byr mwyach. Mae AGGCC yn disgwyl canlyniadau ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) cyn gwneud penderfyniad terfynol ar ad-drefnu prosesau cofrestru.

- Hefyd o dan y cynigion ad-drefnu, caiff cyfrifoldebau ar gyfer rheoli a chyflawni gwaith arolygu mewn perthynas â safleoedd gofal unigol a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol eu hintegreiddio, gan fynd i'r afael â gwahaniad sydd wedi bodoli ers sefydlu AGGCC yn 2007.

[11] Yn ei chyflwyniad i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dywedodd AGGCC ei bod wedi bod yn datblygu rhaglen ehangach o gydweithio gyda'r Cyngor Gofal mewn ymateb i bapur Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011, *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*. Bydd y rhaglen yn cynnwys cyfuno gwybodaeth er mwyn deal yn well yr adnoddau staffio sydd ar gael ym maes gofal preswyl i oedolion hŷn.

- Mae AGGCC wedi bod yn archwilio dewisiadau ar gyfer defnyddio arolygwyr lleyg i'w helpu i arolygu cartrefi gofal, ac mae gwaith cynllunio'r gweithlu hefyd wedi nodi'r angen i recriwtio a datblygu arolygwyr dan hyfforddiant.

- Er bod gan AGGCC ddyletswydd i leihau unrhyw faich rheoleiddio diangen ar ddarparwyr gwasanaethau, mae'n ymddangos nad oes llawer o awydd i leihau'r gofyniad ar gyfer arolygiadau blynyddol mewn cartrefi gofal. Fodd bynnag, mae AGGCC yn bwriadu newid ffocws yr arolygu tuag at ansawdd y profiad i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae AGGCC yn bwriadu ad-drefnu ei phrosesau arolygu cartrefi gofal a chanolbwyntio ar y pedair thema graidd ganlynol mewn perthynas â safleoedd gofal a reoleiddir:

    - *Ansawdd bywyd*: Mae hyn yn cynnwys hawliau a rheolaeth (o ran dewis a dylanwad dros ofal), cyflawniad, lles corfforol a lles emosiynol defnyddwyr gwasanaethau.

    - *Ansawdd staffio*: Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar hyder a chymhwysedd proffesiynol, digonedd, cymorth a goruchwyliaeth mewn safleoedd a reoleiddir. Mewn perthynas â'r *thema* hon, daeth Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2011 i rym ar 1 Mehefin 2011. Mae'r rheoliadau newydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i reolwyr cartrefi gofal i oedolion yng Nghymru, gan gynnwys y cartrefi hynny sydd wedi cofrestru i ddarparu gofal nyrsio, gofrestru fel rheolwr gyda'r Cyngor Gofal.

    - *Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth*: Mae'r thema hon yn rhoi sylw i eglurder gweledigaeth a diben, sicrhau ansawdd, diwydrwydd a chydymffurfiaeth, gwelliant a chynaliadwyedd. Mae AGGCC wedi ad-drefnu'r hunanasesiadau blynyddol a ddychwelir gan ddarparwyr cofrestredig i ddangos cyfrifoldeb corfforaethol a'i hymrwymiad i wella.

    - *Ansawdd yr amgylchedd*: Mae'r thema hon yn rhoi sylw i awyrgylch, hygyrchedd, cyfleusterau a diogelwch.

  Mae AGGCC wedi gweithio gyda Phrifysgol Bradford i ddatblygu dull 'Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu' yn seiliedig ar y themâu uchod. Mae hyfforddiant ar gyfer arolygwyr wedi dechrau, gyda'r nod o'i gyflwyno'n llawn ym mis Mehefin 2012, ac mae cynlluniau i ddatblygu dyfarniadau gwerthuso clir yn erbyn pob un o'r themâu hyn yn cael eu trafod. Mae AGGCC yn awyddus i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cyd-fynd â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol a gynigiwyd yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*.

- Er mwyn cefnogi dull arolygu sy'n fwy seiliedig ar risg, mae AGGCC wedi datblygu offeryn asesu risg electronig newydd sy'n canolbwyntio, i gychwyn o leiaf, ar y themâu a amlinellir yn y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn[12]. Hyd yma, mae'r offeryn, a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf ym mis Hydref 2011, wedi'i ddefnyddio mewn perthynas â phob safle, ac eithrio safleoedd gofal dydd i blant lle ystyriwyd y byddai'n amhriodol. Cynhelir asesiad risg wrth gofrestru ac yn flynyddol ar ôl hynny. Hefyd, defnyddir yr offeryn pan ddaw pryderon penodol i'r amlwg ac mae AGGCC yn disgwyl, yn y tymor canolig i'r tymor hir, y bydd yn cefnogi system arolygu fwy effeithlon a dargedir yn well.

- O fis Ebrill 2012 ymlaen, bydd methodoleg arolygu AGGCC hefyd yn gwahaniaethu rhwng arolygiadau llinell sylfaen, gan roi sylw i amrywiaeth lawnach o faterion, ac arolygiadau â ffocws sy'n targedu pryderon penodol.

- Mae AGGCC hefyd yn datblygu offeryn i fesur ansawdd gwasanaeth o safbwynt defnyddiwr gwasanaethau, i'w ddefnyddio mewn cydweithrediad â'r offeryn asesu risg. Mae AGGCC yn bwriadu ymgynghori â rhanddeiliaid ar ei chynigion ar gyfer yr offeryn mesur ansawdd yn gynnar yn 2012-13.

- Gan adeiladu ar waith a gyflawnwyd cyn sefydlu'r Rhaglen Foderneiddio yn ffurfiol ym mis Ionawr 2011, mae AGGCC wedi rhoi prosesau diwygiedig ar waith ar gyfer hunanasesiad gan ddarparwyr, a chasglu data gan ddarparwyr, mewn perthynas â safleoedd gofal unigol. Trafodwyd y trefniadau newydd gyda darparwyr mewn gweithdy ym mis Chwefror 2011, a chawsant eu cyflwyno fel y sail ar gyfer arolygu safleoedd gofal yn 2011-12. Maent yn cynnwys:

  - casglu data blynyddol am ddefnyddwyr gwasanaethau, staff a nodweddion cyffredinol y safle; a

  - ffurflen hunanasesu'r gwasanaeth i archwilio sut mae darparwyr yn adolygu a chofnodi ansawdd eu gwasanaethau, sut maent yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn y gwaith hwnnw a chynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

  Yn ystod 2011-12, mae AGGCC wedi bod yn adolygu effeithiolrwydd y prosesau hunanasesu a chasglu data diwygiedig hyn gyda'r nod o gyflwyno newidiadau pellach ar gyfer 2012-13, a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r newidiadau arfaethedig i brosesau arolygu a'r gwaith o ddatblygu'r offeryn asesu risg. Ar hyn o bryd, mae amseru'r prosesau

[12] *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn*, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2004. Mae AGGCC yn defnyddio'r safonau hyn i helpu i bennu a yw cartrefi gofal yn darparu gofal digonol, yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau ac yn gweithredu'n unol â gofynion rheoleiddio.

hunanasesu a chasglu data'n gysylltiedig ag amserlen arolygu AGGCC ar gyfer safleoedd unigol. Mae AGGCC wedi nodi ei bod yn bwriadu dechrau casglu data ar-lein, gyda darparwyr yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer pob safle yn ystod cyfnod penodol. Nod y newidiadau hyn yw helpu AGGCC i flaenoriaethu ei gwaith arolygu blynyddol yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd a chefnogi'r gwaith o agregu a chyhoeddi gwybodaeth gryno.

- Mae prosesau gorfodi newydd wedi'u datblygu, i'w rhoi ar waith yn llawn ym mis Ebrill 2012, ac mae prosesau ar gyfer asesu a llenwi ffurflenni cofrestru'n cael eu symleiddio, er nad yw gwasanaethau ar-lein llawn yn uchelgais yn y tymor byr. Mae AGGCC yn disgwyl canlyniadau'r ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) cyn mynd ati i ad-drefnu ei phrosesau cofrestru.

- Ochr yn ochr â datblygu prosesau cofrestru, arolygu a gorfodi newydd, mae AGGCC hefyd wedi bod yn ymgynghori ar strategaeth ymgysylltu newydd i gefnogi ei bwriad i roi defnyddwyr a gofalwyr wrth wraidd yr hyn y mae'n ei wneud. Mae AGGCC yn bwriadu sefydlu bwrdd cenedlaethol a thri bwrdd rhanddeiliaid rhanbarthol i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr, comisiynwyr a sefydliadau eraill yn y trydydd sector. Nod AGGCC yw annog aelodau'r grwpiau hyn i gefnogi'r swyddogaeth arolygu leyg a chyfrannu at y gwaith o sicrhau ansawdd adroddiadau arolygu AGGCC.

- Mae AGGCC hefyd wedi bod yn treialu prosesau newydd ar gyfer trafod cwynion ac amddiffyn oedolion sy'n cyd-fynd â chynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Caiff y prosesau newydd hyn eu rhoi ar waith yn llawn ar 1 Ebrill 2012.

## Mae'r her sy'n wynebu AGGCC o ran ei gallu i ddatblygu a gweithredu prosesau a strwythurau newydd a rheoli ei busnes o ddydd i ddydd ar yr un pryd yn parhau o hyd

**27.** Hyd yn oed pe bai AGGCC wedi gallu ymrwymo mwy o adnoddau i gyflymu'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Adolygiad o Reoleiddio a'r Rhaglen Foderneiddio, mae uwch reolwyr wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r perygl o geisio sicrhau newid yn rhy gyflym i barhad busnes. Mae pryderon ynglŷn â gwydnwch ariannol yn y sector cartref gofal, yn enwedig mewn perthynas â Southern Cross, ac ymateb AGGCC i'r materion a gododd rhaglen Panorama y BBC ar Gartref Gofal Winterbourne View ym Mryste ym mis Mai 2011, hefyd wedi tynnu sylw ac adnoddau oddi wrth waith arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r digwyddiadau hyn hefyd wedi llywio'r cynlluniau ar gyfer newid, fel yn achos y rhaglen Week In Week Out ym mis Tachwedd 2009. Er enghraifft:

- Mae AGGCC yn bwriadu gwella'r arbenigedd ariannol yn ei thimau cofrestru a gorfodi i sicrhau bod gan ddarparwyr fusnesau cynaliadwy â strwythur cyfrifol; ac

- Ymatebodd AGGCC i'r digwyddiadau a amlygwyd yn y rhaglen Panorama trwy arolygu 13 o gartrefi gofal sy'n eiddo i'r un cwmni yn y Gogledd ym mis Gorffennaf 2011. Bu'r gwaith hwnnw yn gyfle i brofi methodolegau arolygu newydd, gan ddod ag arolygwyr o bob cwr o Gymru ynghyd, a nodi manteision cyflawni gwaith arolygu cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar ddarparwyr unigol yn hytrach na safleoedd unigol, er enghraifft, wrth nodi gwendidau cyffredin. Un o ganfyddiadau allweddol yr arolygiadau oedd nad oedd y darparwr gwasanaethau'n cynnal ei ymweliadau monitro ansawdd ei hun mewn ffordd effeithiol.

**28.** Mae AGGCC hefyd wedi gorfod ymdopi â cholli staff oherwydd mentrau diswyddo gwirfoddol a strategaeth leoli ehangach Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'i hymateb i'r gostyngiad arfaethedig yn ei chyllideb. Er bod y datblygiadau hyn yn atgyfnerthu'r achos dros newid, maent wedi cyflwyno heriau o ran cynnal gweithrediadau o ddydd i ddydd.

- Yn nhermau arian parod, disgwylir y bydd cyllideb flynyddol AGGCC yn gostwng yn raddol o £16.5 miliwn yn 2010-11 i ychydig yn llai na £14.5 miliwn yn 2013-14 (gostyngiad o 12.5 y cant yn nhermau arian parod, ond gostyngiad o 19 y cant mewn termau real).

- Yn ôl ffigurau a ddarparwyd gan AGGCC tua chanol 2011, yn gymesur â'r gostyngiadau yn y gyllideb, bydd angen i niferoedd staff ostwng o 309 o swyddi yn 2010-11 i tua 270 o swyddi yn 2013-14. Roedd y rhagamcaniadau hyn yn dibynnu ar benderfyniadau terfynol ar ad-drefnu sefydliadol a chyflymder newid o ran symleiddio prosesau rheoleiddio a chyflwyno systemau gwybodaeth newydd.

- Er bod cynlluniau diswyddo gwirfoddol a strategaeth leoli Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r trywydd o ran niferoedd staff, ar y cyfan, mae eu heffaith wedi bod y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol AGGCC. Gadawodd 20 o aelodau staff AGGCC y sefydliad o dan y cynllun diswyddo gwirfoddol yn ystod yr hydref 2010, gyda 31 o aelodau staff pellach yn gadael yn ystod yr haf 2011. Dywedodd AGGCC y byddai'n well ganddi pe na bai wedi colli rhai o'r aelodau staff sydd wedi gadael y sefydliad.

- Yn unol â strategaeth leoli Llywodraeth Cymru, mae AGGCC wedi lleihau nifer y swyddfeydd o 13 i ddim ond tair. Daeth y broses o gau swyddfeydd i ben ym mis Rhagfyr 2011. Mae rhai aelodau staff wedi dewis dilyn cyfleoedd mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru yn hytrach nag adleoli o fewn AGGCC. Mae rheolwyr rhanbarthol wedi nodi effaith benodol colli staff cymorth busnes profiadol. Er bod AGGCC wedi parhau i recriwtio staff i rai o'r swyddi hyn, mae rheolwyr AGGCC wedi mynegi rhwystredigaeth oherwydd arafwch prosesau recriwtio Llywodraeth Cymru.

**29.** O ystyried heriau'r gweithlu, mae'n anochel bod llwythi achos arolygwyr unigol wedi cynyddu. Fodd bynnag, mae'r newidiadau mae AGGCC wedi bod yn eu cyflwyno i'w phrosesau rheoleiddio wedi'u cynllunio i helpu i gyflawni'r gwaith

hwn yn fwy effeithlon ac effeithiol, a rheoli llwythi gwaith mewn ffordd gyfrifol. Felly, mae AGGCC yn ffyddiog ei bod yn darparu ei gwaith i safon broffesiynol uwch.

**30.** Yn 2010-11, nododd AGGCC ei bod wedi cwblhau 98 y cant o'r arolygiadau arfaethedig ar draws pob safle, o gymharu â 92 y cant yn 2008-09 a 97 y cant yn 2009-10[13]. Roedd y diffyg mwyaf yn 2010-11 yn rhanbarth y Canolbarth a'r De, a gwblhaodd 93 y cant o'r arolygiadau. Mae ffigurau ar gyfer cartrefi gofal i oedolion dros 65 oed yn dangos cyfradd gwblhau o 100 y cant. Ar gyfer 2011-12, mae AGGCC yn disgwyl y bydd yn gallu cwblhau 100 y cant o'i rhaglen arolygu arfaethedig, gyda'r rhan fwyaf o'r arolygwyr wedi cwblhau eu llwythi achos arolygu erbyn diwedd mis Chwefror 2012.

**31.** Yn 2010-11, cyhoeddwyd 91 y cant o adroddiadau arolygu o fewn 63 diwrnod (dim ond 80 y cant yn rhanbarth y Canolbarth a'r De) yn erbyn targed o 100 y cant. Yn 2009-10, cyhoeddwyd 90 y cant o adroddiadau arolygu o fewn 63 diwrnod. Dim ond 30 y cant o ymchwiliadau i gwynion a gwblhawyd ac a adroddwyd arnynt o fewn 42 diwrnod, o gymharu â 48 y cant yn 2009-10 ac yn erbyn targed o 100 y cant. Roedd ffigurau ar gyfer ymchwiliadau i gwynion a gwblhawyd ac a adroddwyd arnynt o fewn 42 diwrnod wedi gostwng o 53 y cant yn 2009-10 i 38 y cant yn 2010-11. Er ei bod wedi adrodd y dangosyddion perfformiad allweddol hyn ar gyfer cwynion, dywedodd AGGCC nad yw llawer o'r cwynion a dderbynnir yn ymwneud yn uniongyrchol â phryderon ynglŷn â safonau gofal, ac felly nad oes ganddi unrhyw locws go iawn i ymchwilio i faterion o'r fath. Bydd y prosesau newydd y bydd AGGCC yn eu cyflwyno ar 1 Ebrill 2012 (paragraff 26, pwynt bwled olaf) yn egluro rôl a chylch gwaith AGGCC ar gyfer trafod cwynion.

DIWEDD

[13] Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud ag ymweliadau arolygu arfaethedig yn unig, ac nid ag ymweliadau eraill y gellir eu cynnal rhwng arolygiadau ffurfiol, er enghraifft, gwaith dilynol ar ganfyddiadau arolygiad. Ni all systemau gwybodaeth AGGCC ddarparu manylion nifer yr ymweliadau a gynhelir ar draws pob safle.